

SH 22

Ymgynghoriad ar ail gartrefi

Consultation on second homes

Ymateb gan: Cyngor Cymuned Llanllwchaearn

Response from: Llanllwchaearn Community Council

Annwyl John Griffiths AS

Diolch yn fawr am y cyfle i gynnig tystiolaeth i'r ymchwiliad i ail gartrefi.

Rydym yn falch iawn eich bod yn ystyried yr argymhellion a wnaed gan y Dr Simon Brooks fel rhan o gyflwyniad gorchwyl yr ymchwiliad hwnnw.

Mawr obeithiwn y byddwch yn cymryd y cyfle i ymateb yn feiddgar i'r argymhellion. Yn amlwg, mae ail gartefi yn fater o bwys a phryder mawr (a hynny ers blynnyddoedd maith) yma yng ngorllewin Cymru fel ag y mae mewn nifer o rannau eraill o'r ynysoedd hyn. Yn anffodus ni fu unrhyw newid polisi nac ewyllys wleidyddol go iawn i ymateb i'r broblem. Rydym mor falch felly eich bod chi nawr yn ymateb gan obeithio y bydd yna weithredu dilynol cadarnhaol.

Wrth gwrs, yr elfen y mae'n rhaid ei hystyried bob tro wrth feddwl am Orllewin Cymru yw'r effaith ieithyddol a gaiff y sefyllfa ail gartrefi. Mae'r Gymraeg wrth gwrs, er ei bod yn perthyn i bawb yng Nghymru yn iaith leiafrifol, a dyma sy'n gweud sefyllfa Gorllewin Cymru yn unigryw o'i chymharu gyda lleoliadau eraill e.e. Ardal y Llynnoedd. Yr un yw'r canlyniadau yno h.y. o ran pobl leol ar incwm isel yn methu'n llwyr â chasglu digon i brynu tŷ ond yma y mae'r effaith ieithyddol yn ffactor allweddol ac ychwanegol. Wrth gwrs, mae economi sydd yn wan a chyflogau isel yn cyfrannu eto at y ffactorau sy'n golygu cynnydd yn nifer yr ail-gartefi/gwyliau sydd yma. Mae hynny wrth gwrs yn cyfrannu wedyn at yr allfudo hanesyddol sydd wedi ac yn digwydd o'r bröydd yma. Mae cynllun eang i adeiladu tai fforddiadwy i bobl leol yn rhan o'r darlun fel ag y mae cryfhau'r economi leol hefyd.

Mae'n sefyllfa gymhleth ac yn galw am fesurau ac atebion cadarn.

Fel y cyfryw, nid oes gennym dystiolaeth sy'n ychwanegol i'r hyn y mae'r Dr Simon Brooks

wedi ei nodi yn ei ymchwil fanwl. Yn wir, mae e wedi cofnodi, wrth ystyried yr hyn sy'n digwydd ym Mhen Llŷn a Dwyfor, yr union faterion sy'n effeithio ar gymunedu yma yng Ngheredigion. Mae'r un gyfran uchel o dai haf a thai gwyliau i'w gweld mewn trefi glan môr yma megis yn Y Cei Newydd ac Aberporth. Efallai y gellid hefyd ystyried ymchwil bellach i effaith parciau gwyliau/safleoedd carafanau enfawr ar hyfywedd y Gymraeg yn ogystal â'u heffaith amgylcheddol. Mae yna enghreifftiau o'r safleoedd hyn yma yng Ngheredigion. Yn sgil hynny byddem yn nodi ein bod yn gweld posibiladau i godi treth dwristiaeth ar unrhyw un sy'n dod ar wyliau i'r parthau hyn. Byddai'r incwm a godir yn gallu cael ei fuddsoddi wedyn mewn prosiectau ieithyddol ac amgylcheddol. Mae hyn yn digwydd eisoes mewn nifer o wledydd Ewrop megis y Swistir ble mae twristiaeth yn pwyso'n drwm ar gymunedau penodol ar gyfnodau arbennig o'r flwyddyn.

Hoffem nodi felly ein bod yn cefnogi **pob un** o argymhellion yr adroddiad.

Yr eiddoch yn gywir

Gareth Ioan

Silyn Roberts

(ar ran holl aelodau Cyngor Cymuned Llanllwchaearn)